UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

# Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion

## Ymateb UCAC

Mehefin 2012

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

**Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru): Ymateb UCAC**

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion. Mae UCAC yn cynrychioli 5,000 o athrawon, penaethiaid a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

**1. A oes angen Bil i ddarparu ar gyfer safonau ysgol a threfniadaeth ysgolion? Eglurwch eich ateb.**

1.1 Cytunwn mai Bil yn unig allai ddod â’r holl ddeddfwriaeth berthnasol ynghyd mewn un lle i greu dogfen gyfannol a chydlynus, hwylus i’w defnyddio.

1.2 Yn ogystal, credwn fod y meysydd y mae’r Bil yn deddfu ynddynt o’r newydd yn feysydd cwbl gymwys ar gyfer deddfwriaeth; mae’r grym statudol a fydd yn cael ei roi i’r adrannau hynny yn werthfawr.

**2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y cafodd ei ddrafftio, yn cyflawni’r amcanion a nodwyd fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol? Eglurwch eich ateb.**

2.1 Rydym o’r farn bod y Bil yn cyd-fynd yn agos â’r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

2.2 Mae rhai agweddau yn ddarostyngedig i Reoliadau a gaiff eu llunio maes o law; mi fydd union eiriad y rheiny yn greiddiol i’r gwaith o gyflawni’r amcanion, ac edrychwn ymlaen at y cyfle i gael ymateb i ymgynghoriad ar y Rheoliadau hynny pan ddaw’r amser.

**3. Beth yw eich barn ar bob un o brif rannau’r Bil?**

**<u>Rhan 2 – Safonau</u>**

**Pennod 1: Ymyrryd ym Materion Rhedeg Ysgolion a Gynhelir**

**Pennod 2: Ymyrryd mewn Awdurdodau Lleol**

3.1 Mae UCAC yn derbyn mewn egwyddor bwriad y penodau hyn; os yw ysgol yn peri pryder, gwell yw cael ymyrraeth gynnar a safonol er mwyn mynd i’r afael â’r broblem.

3.2 Cytunwn mai’r Awdurdod Lleol ddylai fod yn ymyrryd yn y lle cyntaf, ac mai dim ond os nad yw hynny’n llwyddo y mae Gweinidogion Cymru yn ymwneud â’r sefyllfa.

3.3 Serch hynny, teimlwn fod y datganiad ym mharagraff 3.15 o’r Memorandwm Esboniadol braidd yn orhyderus: “Bydd atgyfnerthu’r darpariaethau presennol, eu diwygio a’u gwneud yn fwy eglur drwy’r ddeddfwriaeth hon yn codi safonau ysgolion.”

3.4 Teimlwn fod rhai o’r cymalau’n rhy benagored yn y grym y maent yn rhoi i Awdurdodau Lleol neu’r Gweinidogion. Mae cymalau eraill nad ydynt wedi’u hesbonio’n ddigonol yn y Memorandwm Esboniadol.

3.5 Rhaid datgan ein gwrthwynebiad llwyr i un mater, sef i ‘Bŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau’ – a hynny heb fynd drwy’r prosesau statudol arferol. Manylwn ar ein rhesymau isod.

3.6 Teimlwn y byddai’r bennod hon yn gryfach o gynnwys cymal(au) sy’n ymwneud â rhoi gwybodaeth berthnasol ac amserol i randdeiliaid megis rhieni, staff ac undebau llafur, ynghylch sefyllfa’r ysgol.

**Pennod 3: Canllawiau Gwella Ysgolion**

3.7 Mae'r adran hon (a'r adrannau cyfatebol yn y Memorandwm Esboniadol) yn gadael llawer fawr o gwestiynau heb eu hateb. Mae'r diffyg eglurder yn achosi pryder.

**<u>Rhan 3 – Trefniadaeth Ysgolion</u>**

**Pennod 1: Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion**

Cytunwn â darpariaethau'r bennod hon.

**Pennod 2: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion**

Croesawn fwriad y bennod hon i wneud prosesau trefniadaeth ysgol yn gliriach, yn fwy tryloyw a chyson, ac i sicrhau mai ar lefel lleol y gwneir y rhan fwyaf o benderfyniadau. Unwaith eto, mae rhai elfennau nad oes digon o esboniad arnynt yn y Memorandwm Esboniadol ac nad yw eu bwriad yn gwbl glir.

**Pennod 3: Rhesymoli Lleoedd Ysgol**

Mae elfennau o'r bennod hon na allwn eu cymeradwyo e.e. y diffyg manylder ynghylch yr ymchwiliadau lleol, a'r cymalau sy'n caniatáu i Weinidogion benderfynu ar gynigion a wrthwynebir heb eu cyfeirio at ymchwiliad lleol.

**Pennod 4: Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig**

Nid oes gennym wrthwynebiad i'r darpariaethau hyn.

**Pennod 5: Cynigion i Ailstrwythuro Addysg Chweched Dosbarth**

Mae gennym bryder cyffredinol am y bennod hon. Nid yw'n gwneud synnwyr i greu cyfundrefnau gwahanol ar gyfer penderfynu cynigion trefniadaeth addysg uwchradd ar y naill law, a chynigion trefniadaeth dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ar y llaw arall, gan fod y ddau mor gyd-ddibynnol. Rydym o'r farn bod y Bil yn ymestyn pŵer y Gweinidogion yn y cyd-destun hwn, ac rydym yn gwrthwynebu hynny.

**<u>Rhan 4 – Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg</u>**

Cytunwn yn gryf iawn â bwriad yr adran hon, a chefnogwn y darpariaethau'n llawn. Serch hynny, hoffem weld y rheoliadau'n dod i rym yn gynt er mwyn cefnogi'r ymgais i gyrraedd targedau 2015 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

**<u>Rhan 5 –Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion</u>**

Nid oes gennym wrthwynebiad i'r darpariaethau hyn.

**4. Beth yw'r rhwystrau posibl rhag gweithredu darpariaethau'r Bil (os oes rhwystrau) ac a yw'r Bil yn eu hystyried?**

Capasiti digonol i gefnogi ysgolion mewn modd adeiladol ac arbenigol yw ein prif gonsyrn o ran rhwystrau posib rhag gweithredu darpariaethau'n Bil. Nid oes ystyriaeth i'r mater hwn yn y Bil ei hun.

**5. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch adrannau penodol o'r Bil?**

**Rhan 1 – Cyflwyniad**

**1(3):** Mae camgymeriad yn y fersiwn Cymraeg: mae angen ychwanegu '2' ar ôl 'Ran'

**Rhan 2 – Safonau**

**Pennod 1: Ymyrryd ym Materion Rhedeg Ysgolion a Gynhelir**

Mae UCAC yn derbyn mewn egwyddor bwriad yr adran hon; os yw ysgol yn peri pryder, gwell yw cael ymyrraeth gynnar a safonol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Serch hynny, teimlwn fod y datganiad ym mharagraff 3.15 o'r Memorandwm Esboniadol braidd yn orhyderus: "Bydd atgyfnerthu'r darpariaethau presennol, eu diwygio a'u gwneud yn fwy eglur drwy'r ddeddfwriaeth hon yn codi safonau ysgolion."

Rhaid datgan ein gwrthwynebiad llwyr i un mater, sef i 'Bŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau' – a hynny heb fynd drwy'r prosesau statudol arferol. Manylwn ar ein rhesymau isod.

Yn ogystal, mae gennym nifer o bwyntiau a chwestiynau penodol i'w codi.

Yn gyffredinol, teimlwn y byddai'r bennod hon yn gryfach o gynnwys cymal(au) sy'n ymwneud â rhoi gwybodaeth berthnasol ac amserol i randdeiliaid megis rhieni, staff ac undebau llafur, ynghylch sefyllfa'r ysgol.

**2 - SAIL 2:** mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod y geiriau 'sy'n rhagfarnu, neu sy'n debygol o ragfarnu safonau perfformiad' wedi'u gwaredu o'r geiriad gwreiddiol. Teimlwn yn gryf y byddai'r cymal yn gryfach o gadw'r geiriau hyn. Mae'r fersiwn sy'n cael ei gynnig yn y Bil yn beryglus o benagored ym marn UCAC; mae pob math o fethiannau'n gallu digwydd yn y ffordd y mae ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu - yn faterion heb oblygiadau mawr, i faterion gwirioneddol ddifrifol. Nid yw'r cymal fel y mae ar hyn o bryd yn gosod unrhyw fath o drothwy o ran y lefel o ddifrifoldeb fyddai'n achosi ymyrraeth yn yr ysgol. Teimlwn fod sail gadarn iawn ar gyfer ymyrraeth gynnar hyd yn oed o gynnwys y cymal ynghylch rhagfarnu safonau perfformiad (sy'n drothwy rhesymol iawn ar gyfer ymyrraeth) - yn enwedig gan ei fod yn dweud 'neu sy'n debygol o ragfarnu...' - h.y. nid oes yn rhaid oedi nes bod y safonau'n dechrau gostwng cyn ymyrryd, mae'n ddigon bod peryg y gall hynny ddigwydd. Byddai ail-ychwanegu'r cymal yn sicrhau bod Awdurdod Lleol yn gallu cyfiawnhau ac amddiffyn ei benderfyniad i ymyrryd.

**4(5):** Nid ydym yn deall diben y paragraff hwn, ac ni welwn esboniad ohono yn y Memorandwm Esboniadol. Nid yw 10 niwrnod yn amser hir, a gofynnwn o dan ba amgylchiadau ac am ba resymau y byddai angen cwtogi ar y cyfnod? Nid ydym o reidrwydd yn gwrthwynebu, ond yn hytrach yn gofyn am esboniad cyn gallu ffurfio barn.

**4(9):** Teimlwn fod y paragraff hwn yn rhoi grym rhy benagored i Awdurdod Lleol. Deallwn, wrth i'r sefyllfa ddatblygu, y gallai Awdurdod Lleol fod yn awyddus i gymryd camau na chaethant eu henwi yn yr hysbysiad rhybuddio. Serch hynny, teimlwn fod rhoi rhwydd hynt i gymryd unrhyw gamau o gwbl yn gam yn rhy bell, a bod angen cyfyngu mewn rhyw ffordd ar y grym hwn.

**6(2):** Gofynnwn a ddylai fod cyfyngiad o ryw fath ar y nifer o lywodraethwyr y gall Awdurdod Lleol ei benodi. Gallai'r cyfyngiad gael ei fynegi fel canran o'r niferoedd presennol. Gellid dadlau, petai'r Awdurdod am benodi mwy na 50% o lywodraethwyr, y byddai'n well symud yn syth at baragraff 7.

**6(5) a 6(6):** Cwestiwn sydd gennym fan hyn hefyd. Ai ar ddechrau'r cyfnod y penderfynir am ba mor hir y bydd yn para, ynteu wrth i'r cyfnod fynd yn ei flaen? Rydym o'r farn y byddai'n well mynnu bod yr Awdurdod yn pennu cyfnod penodol ar gyfer y llywodraethwyr hyn, a bod modd adnewyddu neu estyn y cyfnod petai angen. Byddai gweithredu yn y modd hwn yn rhoi disgwyliadau cliriach i bawb o'r cychwyn, ond eto ni fyddai'n cyfyngu ar rym yr Awdurdod pa na bai'r sefyllfa wedi gwella ar ddiwedd y cyfnod cyntaf. Gellid ystyried penni'r cyfnod yn yr hysbysiad rhybuddio.

**6(7):** Teimlwn yn gryf na ddylai llywodraethwyr a benodir gan yr Awdurdod Lleol dderbyn unrhyw dâl cydnabyddiaeth na lwfans na fyddai llywodraethwr arferol yn gymwys i'w gael. Byddai unrhyw wahaniaeth yn y telerau yn creu rhwystrau gwirioneddol i'r broses o gydweithio adeiladol.

**9(2):** Mae'r paragraff hwn yn benagored dros ben, ac yn enwedig felly 9(2)(b) sy'n caniatáu Awdurdod Lleol i gymryd "unrhyw gamau eraill" heb gyfyngiad. Pryderwn ynglŷn â'r defnydd posib o rym mor eang.

**11(4):** Camgymeriad sillafu yn y fersiwn Cymraeg – yn lle 'gedu', dylai bod 'gredu'

**11(6):** Fel 4(5) uchod.

**11(10):** Fel 4(9) uchod.

**13(2):** Fel 6(2) uchod.

**13(5) a 13(6):** Fel 6(5) a 6(6) uchod.

**13(7):** Fel 6(7) uchod.

**15:** Teimlwn fod rhywbeth ar goll o'r adran hon, sef unrhyw fath o ymgynghoriad gyda'r ysgol(ion) y mae'r ysgol sy'n peri pryder yn cael cyfarwyddyd i ffedereiddio â hi/â nhw. Mae ffedereiddio yn gallu newid amodau gwaith staff, yn enwedig y Pennaeth, yn sylweddol iawn. Yn ogystal, gall newid natur a chymeriad yr ysgol mewn amryw o ffyrdd. A oes unrhyw hawl yn y Bil i ysgol wrthod ffedereiddio gydag ysgol sy'n peri pryder? Ni welwn gyfeiriad at hawl o'r fath nag at unrhyw broses ymgynghori, ac mae hynny'n peri pryder.

**16:** Gwrthwynebwn yr adran hon yn ei chyfanrwydd ar y sail bod y camau a amlinellir ynddi'n afresymol o eithafol. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y rhesymeg yn y Memorandwm Esboniadol, nac yn natganiadau diweddar y Gweinidog, bod cyfiawnhad dros gau ysgol sy'n peri pryder.

Prosesau neu berfformiad diffygiol sy'n debygol o fod wrth wraidd problemau difrifol mewn ysgol, ac mae gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â phrosesau neu unigolion penodol. Yn wir, mae llawer o'r gweithdrefnau hynny yn y Bil hwn; yn ogystal, mae systemau rheoli perfformiad, polisïau disgyblu a medrusrwydd ar gyfer staff, hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr, ac ati. Os yw'r Bil yn rhagweld na fydd y gweithdrefnau hyn yn ddigonol, ac mai'r unig ateb yw cau'r ysgol yn llwyr, mae hyn yn awgrymu mai'r sail ar gyfer y fath penderfyniad yw bod pob un o'r staff a'r llywodraethwyr (neu o leiaf y mwyafrif helaeth ohonynt) yn analluog i wneud eu gwaith. A ydy hynny'n senario credadwy, ac yn un sy'n ddoeth i ddeddfu ar ei sail? Nid ydym yn credu felly.

Gwrthwynebwn ymhellach y bwriad i alluogi Gweinidogion i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau heb ddilyn y prosesau statudol arferol o roi cynigion gerbron ac ymgynghori arnynt o fewn amserlen benodol.

Rhaid cadw mewn cof goblygiadau ymarferol cau ysgol yn llwyr, ac yn ddisymwth. I ba ysgol(ion) fydd y disgyblion yn mynd? A oes digon o lefydd gwag yn yr ysgol neu ysgolion cyfagos? A ydynt yn darparu addysg o'r cyfrwng iaith y dymunir? Beth fydd y pellteroedd teithio o gartrefi'r disgyblion i'r ysgol newydd? Beth fyddai'n digwydd i'r adeilad? Neu ai'r bwriad yw diswyddo pob aelod o staff a phob llywodraethwr, ac ail-agor ysgol gyda staff a llywodraethwyr newydd?

Yn fyr, nid ydym o'r farn fod yr adran hon yn gymesur â nod y Bil i godi safonau ysgolion.

**17(2):** Fel 9(2) uchod.

**Atodlen 1; 9:** Er tegwch, tryloywder ac atebolrwydd, teimlwn na ddylai aelodau o weithrediaeth interim dderbyn unrhyw dâl cydnabyddiaeth na lwfans na fyddai llywodraethwr arferol yn gymwys i'w gael.

**Atodlen 1; 14:** Rydym yn gryf o'r farn na ddylai fod gan weithrediaeth interim yr hawl i argymell cau ysgol. Rydym wedi manylu ar ein safbwynt nad yw safonau yn ddigon o reswm dros gau ysgol wrth drafod paragraff

16 uchod. Yn ychwanegol at y rhesymau hynny, tynnwn sylw at y ffaith nad cymuned yr ysgol sydd wedi dewis aelodau'r weithrediaeth interim, ac felly ni theimlwn eu bod nhw yn y sefyllfa orau i ddod i benderfyniad am fater mor ddifrifol.

**Pennod 2: Ymyrryd mewn Awdurdodau Lleol**

**21 – SAIL 1 a SAIL 3:** A oes diffiniad yn y Bil, neu yn rhywle arall, o 'swyddogaeth addysg'?

**22(1):** camgymeriad yn y fersiwn Cymraeg, angen newid 'to' i 'i'

**23(7):** Fel 4(9) uchod.

**27(1):** Nid ydym  yn teimlo bod y gair 'hwylus' yn gyfieithiad priodol o '*expedient*' yn y cyd-destun hwn; nid yw'n cyfleu difrifoldeb y sefyllfa, ac mae'r gair yn awgrymu mai mater o gyfleustra sydd dan sylw.

Pryderwn fod y cymal hwn yn llawer rhy benagored o ran y grym y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru; yn y bôn, mae'n caniatáu i'r bobl sydd wedi'u hapwyntio gan y Gweinidogion i gyflawni swyddogaethau addysg, i ymgymryd ag *unrhyw* agwedd o'r swyddogaethau hyn, swyddogaethau y gallent fod yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r 'seiliau dros ymyrryd' a enwyd yn yr hysbysiad. Credwn y dylai bod hyd a lled y grymoedd wedi'u diffinio'n gliriach.

**27(2):** Nid yw ystyr na bwriad y cymal hwn yn glir o gwbl ac ni welwn unrhyw esboniad yn y Memorandwm Esboniadol. Ni allwn ffurfio barn nes bod eglurhad pellach, ond yn y cyfamser, mae'n destun pryder.

**28(2):** Fel 9(2) uchod.

**Pennod 3: Canllawiau Gwella Ysgolion**

**33:** Mae'r adran hon (a'r adrannau cyfatebol yn y Memorandwm Esboniadol) yn gadael llawer fawr o gwestiynau heb eu hateb, ac rydym o'r farn nad yw'n ddigon clir fel ag y mae. Nid yw'n glir a fydd setiau penodol o ganllawiau yn cael eu llunio ar gyfer ysgolion penodol, neu ai canllawiau cyffredinol sydd dan sylw fan hyn? Ai Adran Addysg Llywodraeth Cymru fydd yn darparu'n canllawiau hyn (deallwn mai dros y tymor byr yn unig y bydd yr Uned Safonau Ysgolion yn gweithredu, a gwyddom mai staff bychan sydd ganddi)? Gwyddom nad busnes y Bil ei hun yw sicrhau capasiti digonol i wireddu ei ddarpariaethau, serch hynny, ystyriwn ei fod yn deg i godi'r cwestiwn: a yw'r arbenigedd a'r capasiti ar gael yn yr Adran Addysg i ddarparu canllawiau unigol i ysgolion – os mai dyna yw'r bwriad? Ac a yw'r arbenigedd a'r capasiti ar gael yn yr Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol i gefnogi'r ysgolion yn eu hymdrechion i geisio gwella?

A fydd unrhyw ymgynghori gyda rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r canllawiau ym mis Medi 2012?

Os mai canllawiau 'arfer dda' yw'r rhain - a yw hi'n briodol bod grym statudol iddynt? Fel arfer, mae arfer dda yn rhywbeth i'w dreialu a gweld a yw'n gweithio mewn cyd-destun penodol ai peidio - nid yn rhywbeth gorfodol. Yn ogystal, mae arfer dda yn rhywbeth sy'n dueddol o newid dros amser. A fydd y canllawiau'n ddigon hyblyg i fod yn arf effeithiol wrth geisio codi safonau ysgolion?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn peri pryder y bydd y canllawiau hyn, a'r grym statudol y bwriedir ei roi iddynt, yn cael eu defnyddio mewn modd llawdrwm i orfodi arferion penodol ar ysgolion.

**Rhan 3 – Trefniadaeth Ysgolion**

**Pennod 1: Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion**

Cytunwn â darpariaethau'r bennod hon.

**39(1):** Byddem yn teimlo'n fwy cyffyrddus petai diffiniad cliriach o'r personau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw ynghylch y cod, hyd yn oed petai'r diffiniad yn ymddangos yn y Memorandwm

Esboniadol. Mae’r cod yn mynd i fod yn ddogfen eithriadol o bwysig, a bydd mewnbwn rhanddeiliaid yn greiddiol wrth eu llunio; hoffem gael cadarnhad y bydd undebau’r athrawon ar y rhestr o ymgyngoreion.

**Pennod 2: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion**

Croesawn fwriad y bennod hon i wneud prosesau trefniadaeth ysgol yn gliriach, yn fwy tryloyw a chyson, ac i sicrhau mai ar lefel lleol y gwneir y rhan fwyaf o benderfyniadau.

**40(6):** Gan ein bod yn gwrthwynebu paragraff 16, nid allwn dderbyn y cymal hwn.

**41(2):** Beth yw diffiniad ‘unrhyw berson’? Ydy hyn yn cynnwys cwmni preifat? A allai hyn agor y drws i ‘ysgolion rhydd’ megis yn Lloegr?

**45(5) a 45(6):** A ydy’r cymalau hyn yn rhoi’r hawl i sefydlu ysgol sefydledig newydd (drwy newid categori) er y gwaherddir sefydlu ysgolion sefydledig newydd yng Nghymru dan ddarpariaethau Mesur Addysg (Cymru) 2011?

**47(3):** Camgymeriad sillafu yn y fersiwn Cymraeg – newid ‘ydys’ i ‘ydyw’

**52(1)(a):** Yn y Gymraeg, defnyddir y gair ‘gwrthwynebwr’ yn y cymal hwn, tra defnyddir y gair ‘gwrthwynebydd’ mewn cymalau eraill e.e. 53(1)(a). Gwell gennym fyddai’r gair ‘gwrthwynebydd’ gan ei fod yn llai cenedl-benodol, ond naill ffordd neu’r llall, mae angen cysondeb.

**52(4)(c):** Mae camgymeriad yn y fersiwn Cymraeg; dylid newid ‘gynigion’ i ‘wrthwynebiadau’

**53:** Er bod y Memorandwm Esboniadol yn pennu mai “pum person a fydd naill ai’n aelodau o’r awdurdod lleol...neu’n bersonau lleyg annibynnol’ ni welwn gyfeiriad yn y Bil at union gyfansoddiad y Panel Penderfynu Lleol heblaw am yr hyn a gynhwysir yn Atodlen 3, paragraff 2. Pa fath o bobl leyg fydd y rhain, tybed? Ai Panel sefydlog fydd hwn neu a fydd panel newydd yn cael ei benodi bob tro bydd angen gwneud penderfyniad?

Teg yw nodi, er ein bod yn cefnogi’n llwyr yr ymgais i benderfynu fwy o gynigion yn lleol, bod gennym rai amheuon ynghylch diduedddrwydd panel o’r fath, ac yn arbennig ynghylch canfyddiad pobl leol o ddiduedddrwydd y panel.

**53(1)(a):** Mae camgymeriad yn y fersiwn Cymraeg o’r Memorandwm Esboniadol mewn perthynas â’r cymal hwn, ar dudalen 112 – mae’n dweud bod angen “o leiaf 2 wrthwynebydd categori 2” i gael ei gyfeirio at Banel Penderfynu Lleol – tra mai 1 gwrthwynebydd a nodir yn y fersiwn Saesneg yn ogystal ag yn y Bil ei hun.

**53(2)(b):** Nid yw ystyr y cymal hwn yn gwbl glir, ac mae’n destun pryder. Ai cyfeirio y mae’r cymal at ryw fath o ddeiseb h.y. dogfen unigol wedi’i llofnodi gan nifer o bobl? Neu a yw’n cyfeirio at nifer o ddogfennau ar wahân sy’n cynnwys yr un testun - h.y. ymgyrch wedi’i drefnu sy’n darparu llythyrau parod i bobl eu llofnodi? Naill ffordd neu’r llall, byddem yn gwrthwynebu’n gryf y bwriad i ystyried y dogfennau hyn fel gwrthwynebiad gan un gwrthwynebydd categori 3 sengl. Mae nifer o bobl nad ydynt yn ddigon hyderus i lunio’u llythyron eu hunain ond sy’n awyddus i fynegi gwrthwynebiad, ac mae gwneud hynny drwy lofnodi deiseb, neu drwy anfon llythyr a baratowyd ar eu rhan yn gwbl dderbyniol. Dadleuwn y dylai pob un o’r rhain cyfrif fel gwrthwynebiad ar wahân. Gan fod y grwpiau o bobl sy’n dod o dan gategori 3 wedi’i diffinio’n fanwl iawn, rydym o’r farn fod digon o amddiffynfa yn y system a gynigir eisoes, heb or-gyfyngu yn y modd annemocrataidd hwn.

**54:** Mae’r adran hon yn wirioneddol anodd ei ddilyn a’i ddeall, ac nid yw’r Memorandwm Esboniadol yn helpu. Rhan o’r broblem yw’r cyfeiriad (am y tro cyntaf) at gynigion A, B, C a D. Awgrymwn yn gryf y byddai cael esboniad yn y Memorandwm Esboniadol o ystyr paragraffau (b) drwy’r adran gyfan, a’r rhesymeg y tu ôl iddynt, yn ddoeth.

**56(4):** Nid yw’r Memorandwm Esboniadol yn cynnig rhesymeg dros y paragraff hwn. Mae’r amserlenni wedi’u pennu’n glir ac yn ofalus iawn yn y Bil, felly o dan ba amgylchiadau ac am ba resymau y byddai angen “dod â’r gweithredu ymlaen gan gyfnod o hyd at 13 o wythnosau”? Mae darpariaethau eraill yn y Bil yn caniatáu

dirwyn ysgol i ben yn gyflym os oes llai na 10 disgybl - felly beth yw'r amgylchiadau amgen allai arwain at gwtogi'r amserlen o hyd at 13 wythnos?

**Pennod 3: Rhesymoli Lleoedd Ysgol**

**60(1)(b)(i):** Nid yw'n glir, os yw cynigion *wedi eu cyhoeddi'n unol â'r gorchymyn*, pam y byddai angen ymyrraeth gan Weinidogion Cymru? Byddai'r cymal yn gwneud synnwyr petai'r cynigion heb eu cyhoeddi, neu eu bod yn annigonol mewn rhyw ffordd – ond anodd mae'n anodd deall y rhesymeg fel arall. Unwaith eto, byddai esboniad pellach yn ddefnyddiol.

**62:** Unwaith eto, teimlwn nad yw'r paragraff hwn yn ddigon clir, ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnig yr eglurder angenrheidiol 'chwaith. Y bwlch mwyaf amlwg yw: pwy sy'n cynnal yr ymchwiliad lleol a sut (amserlen ac ati)?

**62(7):** Mae cymal hwn yn ymddangos fel "loophole" anferth ac nid ydym wedi cael hyd i unrhyw esboniad neu gyfiawnhad drosto. Os deallwn yn iawn, yn ôl y drefn arferol, petai Gweinidogion wedi gwneud cynigion i resymoli lleoedd ysgol, a bod gwrthwynebiadau i'r cynigion, byddai angen cyfeirio'r mater at ymchwiliad lleol; ond mae'r cymal hwn yn dweud bod hawl gan y Gweinidogion beidio cyfeirio'r mater at ymchwiliad lleol os ydynt "yn ffurfio barn y dylid gweithredu unrhyw gynigion." Hynny yw, byddai modd diystyru'r gwrthwynebiadau a pheidio rhoi unrhyw ystyriaeth iddynt ar lefel leol. Os oes darpariaethau ynghylch ymchwiliadau lleol, credwn y dylent fod yn gymwys ymhob achos.

**62(9):** Onid yw'r cymal hwn yn gwrthddweud cymal 62(4)? Os na, efallai bod angen fwy o esboniad yn y Memorandwm i wneud y gwahaniaeth yn gwbl glir.

**63(2):** Anghytunwn â'r ddarpariaeth hon; credwn y dylai unrhyw gynigion gan Weinidogion, os oes gwrthwynebiad iddynt, fod yn ddarostyngedig i ymchwiliad lleol – dim ots a ydynt yn gynigion "gwreiddiol" neu'n "gynigion pellach" ar ôl bod trwy un ymchwiliad lleol.

**Pennod 4: Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig**

**69(1)(b)(i):** Fel 60(1)(b)(i) uchod.

**Pennod 5: Cynigion i Ailstrwythuro Addysg Chweched Dosbarth**

Mae gennym bryder cyffredinol am y bennod hon. Gwyddom fod gan Weinidogion Cymru bwerau eisoes o dan Adran 113A Deddf Dysgu a Medrau 2000 i ail strwythuro addysg chweched dosbarth. Serch hynny, ble mae'r Ddeddf honno yn rhoi'r pŵer i Weinidogion wneud '*alteration*' i unrhyw ysgol uwchradd mewn awdurdod lleol mewn perthynas ag addysg ôl-orfodol, nid yw'n gallu gweithredu '*discontinuance*' ond mewn perthynas ag ysgol sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 16 a 19 mlwydd oed *yn unig*.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae'r Bil, yn Atodlen 2, Rhan 2, paragraff 6(2), yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru: "Terfynu'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sydd i barhau i ddarparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol."

Mae hyn felly yn rym newydd, ac yn un yr rydym yn ei wrthwynebu. Gwyddom fod gan Weinidogion Cymru rymoedd dros drefniadaeth addysg ôl-16, a bod y systemau ariannu ar wahân i systemau ariannu addysg ar gyfer yr oedrannau gorfodol. Serch hynny, gwnaed dadleuon cryf yn sgil y Bil hwn ynghylch pwysigrwydd gwneud cymaint â phosib o benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion ar lefel leol, a theimlwn fod y dadleuon hynny yr un mor gryf a chymwys ar gyfer addysg chweched dosbarth. Rhaid cofio, er bod y ffrwd ariannu ar wahân, bod y chweched dosbarth yn rhan greiddiol ac annatod o nifer fawr iawn o ysgolion uwchradd ac Awdurdodau Lleol sydd â chyfrifoldeb drostynt. Gellid dweud dadlau bod yma enghraifft berffaith o'r math o gydlafurio y mae'r Gweinidog yn awyddus iawn i'w weld i greu unedau mwy o faint ac felly fwy effeithlon a hyfyw.

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i greu cyfundrefnau gwahanol ar gyfer trefniadaeth addysg uwchradd ar y naill law, a dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ar y llaw arall, gan fod y ddau mor gyd-ddibynnol. Maent yn bodoli yn yr un cymunedau ar gyfer yr un disgyblion ac o fewn yr un sefydliadau.

**74(3):** Mae camgymeriad yn y fersiwn Cymraeg; mae angen dileu 'amodau' ac ychwanegu 'addasiadau' yn ei le. Yn ogystal, hoffem gael mwy o fanylder a sicrwydd ynghylch y personau y bydd angen ymgynghori â nhw ar y mater hwn.

**Rhan 4 – Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Cytunwn yn gryf iawn â bwriad yr adran hon, a chefnogwn y darpariaethau'n llawn.

Sylwn fod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at reoliadau fydd yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2013, ac yn ei gwneud i'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol i'w gweithredu o 1 Ebrill 2014. Teimlwn fod yr amserlen hon yn araf (yn enwedig o'i chymharu â'r amserlen gogyfer â rheoliadau eraill yn y Bil hwn), ac mae'n codi'r cwestiwn o ba mor effeithiol fydd y darpariaethau hyn wrth i'r Llywodraeth a'r Awdurdodau Lleol geisio ymgyrraedd at dargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg erbyn 2015.

**85(3):** Teimlwn fod y pwyslais yn wahanol yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg oherwydd y defnydd o'r gair 'angenrheidiol' i gyfateb â 'necessary'. Teimlwn fod 'angenrheidiol' yn gosod y bar tipyn yn uwch na 'necessary', ac yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd diwygiadau yn cael eu gwneud.

**85(4)(f):** Hoffem gael mwy o fanylder a sicrwydd ynghylch y 'personau rhagnodedig eraill' y bydd yn rhaid ymgynghori â nhw ar y mater hwn.

**Rhan 5 –Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion**

**89(2)(b):** Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad pellach ynglŷn â diffiniad 'afresymol', a beth yw'r amgylchiadau y rhagwelir gallai arwain at sefyllfa o'r fath.

**97:** Nid ydym yn gwrthwynebu'r ddarpariaeth hon; mae'n ymddangos yn synhwyrol i ddiddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer wedi'i gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghyd-destun y Bil hwn. Serch hynny, ni welwn unrhyw wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol sy'n ymhelaethu ar y cymal hwn, a chredwn ei bod hi'n bwysig esbonio sgil-effeithiau diddymu darpariaeth o'r fath.



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com